Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hengoed

**Chapel Terrace
Hengoed
CF82 7JU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Hengoed

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Hengoed |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 176 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 133 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 39.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 20.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/06/2023 |
| Mae'r pennaeth gweithredol yn bennaeth ar ysgol gyfagos. | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac yn frwdfrydig yn ystod gwersi ac mewn gweithgareddau o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn bennaf oherwydd y perthnasoedd gweithio cadarnhaol sydd ganddynt â'u hathrawon ac aelodau staff eraill. Ceir awyrgylch gofalgar a chynhwysol iawn yn yr ysgol, ac mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn elfen annatod o fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae amgylchedd yr ysgol yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu llwyddiannus. Caiff dysgu ei hyrwyddo'n dda mewn ystafelloedd dosbarth ac yn yr awyr agored, ac mae'r ddarpariaeth hon yn deg ar draws yr ysgol. Mae dysgu yn hynod lwyddiannus lle mae'r addysgu yn bwrpasol a chyson, ac yn herio disgyblion i berfformio ar eu gorau.

Pan mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae'n helpu disgyblion i wneud cynnydd cryf mewn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, ac maent yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau annibynnol yn ddigon aml.

Mae pob un o'r staff yn hyrwyddo ethos cadarnhaol o gymorth a gofal ar gyfer disgyblion ym mhob ardal yn yr ysgol. Mae hyn yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain yn eithriadol o dda. Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fagu hyder ynddyn nhw eu hunain fel unigolion, tra'n datblygu parch cryf am deimladau pobl eraill hefyd. O ganlyniad, mae disgyblion yn cefnogi ei gilydd, yn datblygu gwydnwch ac yn dyfalbarhau â thasgau heriol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr ac mae arweinyddiaeth strategol y corff llywodraethol yn foddhaol. Mae'r pennaeth gweithredol yn darparu arweinyddiaeth gref ac effeithiol, gyda phenderfyniad i lwyddo er budd disgyblion a'r gymuned. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r staff yn rhannu ei weledigaeth bwrpasol, ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau bod yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r pennaeth gweithredol yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol ymhlith staff ac yn darparu cyfleoedd cryf ar gyfer dysgu proffesiynol, fel gwella anghysondebau yn ansawdd yr addysgu. Mae hyn yn cyfrannu at ethos ysgol gyfan ffyniannus, lle mae staff a disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr arferion arwain newydd yn gwella cysondeb ac effeithiolrwydd yr addysgu ar draws yr ysgol

A2 Darparu cyfleoedd gwell i hyrwyddo medrau annibynnol disgyblion

A3 Gwella arweinyddiaeth strategol y corff llywodraethol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda lefelau sydd islaw'r rhai a ddisgwylir am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu ystod o fedrau. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn effeithiol, gan gynnwys llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn bwrpasol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn awyddus i sgwrsio â'u hathrawon a gydag ymwelwyr. Maent yn siarad yn frwdfrydig am beth maent yn ei wneud, er enghraifft pan fydd disgyblion dosbarth derbyn yn trafod yn synhwyrol sut maent yn defnyddio rholeri paent i greu lluniau o wenyn. Erbyn i ddisgyblion fod yn saith oed, mae llawer ohonynt yn sgwrsio'n dda â'u cyfoedion ac oedolion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn rhannu syniadau'n dda ar y deunyddiau sydd eu hangen i efelychu adeiladu iglŵau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn gwrando'n ofalus ar gwestiynau cyn eu hateb yn huawdl. Er enghraifft, maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu hymchwil ar archwilwyr pegynol a'u hanimeiddiadau byr ar fywyd Edgar Evans, y maent yn eu cyflwyno'n arloesol gan ddefnyddio technoleg sgrin werdd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen da. Mae disgyblion iau yn caffael dealltwriaeth o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau yn gyflym. Maent yn mwynhau edrych ar ystod eang o lyfrau a deunyddiau electronig ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn gadarn, ac maent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau'n llwyddiannus i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn dod yn ddarllenwyr medrus ac yn darllen â mynegiant, er enghraifft wrth ddarllen chwedlau gwerin o Gymru, fel Gelert, i'w gilydd. Erbyn Blwyddyn 6, gall llawer o ddisgyblion frasddarllen a bwrw golwg yn hawdd, ac mae ganddynt fedrau amgyffred da, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol yn eu hymchwil ar goroni Brenin Charles III yn ddiweddar.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol. Mae'r plant ieuengaf yn mwynhau creu marciau ac yn ysgrifennu amseroedd agor yn 'Siop Shani'. Maent yn croesawu'r cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn Blwyddyn 2, gall llawer o ddisgyblion ysgrifennu dilyniant o frawddegau syml a defnyddio atalnodi a gramadeg sylfaenol yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n gydlynus mewn amrywiaeth o genres, fel erthyglau papur newydd ar drychinebau cenedlaethol a llythyrau perswadiol ar

gynhesu byd-eang. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau'r broses ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu'n effeithiol yn estynedig ac yn cyflwyno a golygu eu gwaith yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Maent yn canu caneuon cyfarch ac yn ymateb i geisiadau a gorchmynion syml. Er enghraifft, maent yn mwynhau canu am wahanol anifeiliaid ac amseroedd y dydd. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau Cymraeg addas ac yn defnyddio strwythurau brawddeg a geirfa sylfaenol iawn i siarad amdanyn nhw eu hunain a'u teimladau. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn awyddus i gynnal sgyrsiau syml gydag ymwelwyr, a'u cyfarch, yn Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth fathemategol a'u medrau rhifedd yn dda wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am rif trwy rigymau a chaneuon a chyfleoedd dysgu yn yr awyr agored. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfrifo'r atebion i broblemau rhif gan ddefnyddio rhifau dau ddigid yn hyderus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio gweithrediadau rhif yn llwyddiannus ac yn datblygu medrau trin data llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn tynnu llun graffiau llinell cywir i gymharu'r tymereddau yn y Cylch Arctig â Chymru. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm, fel poblogi cronfeydd data a thaenlenni yn ystod arolwg am ffordd iach o fyw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol cryf, ac yn defnyddio'r rhain ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o feddalwedd a dyfeisiau, gan gynnwys prosesu geiriau, codio, taenlenni a chyflwyniadau amlgyfrwng. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn creu cyflwyniadau ar thema amrywiaeth ac anabledd yn seiliedig ar fywydau gwahanol bobl yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn anfon negeseuon e-bost yn effeithiol, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio dyfeisiau digidol a gemau addysgol i ddatblygu ac atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mwynhau creu gerddi gan ddefnyddio siapiau dau a thri dimensiwn, tra bod disgyblion hŷn yn chwarae amrywiaeth o offerynnau, fel gitarau, ac yn canu yng nghôr yr ysgol â mynegiant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â heriau ac yn eu cwblhau hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cadarn wrth ddatrys problemau, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 3 yn cynllunio faint o gynhwysion sydd eu hangen i greu cacen.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus ac yn mwynhau'r ysgol. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dangos balchder yng nghymuned yr ysgol o fewn ei hethos cynhwysol a gofalgar. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un o'r disgyblion berthnasoedd cadarnhaol â staff. Maent yn credu bod staff yn gwrando ar eu lleisiau a'u barn, yn enwedig o ran eu dysgu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn cerdded yn bwyllog o gwmpas yr ysgol ac yn croesawu ymwelwyr mewn modd moesgar a chwrtais, er enghraifft dal drysau ar agor i'w gilydd, ac i oedolion. Mae'r rhan fwyaf o

ddisgyblion yn cydweithio'n dda ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill. Maent yn cyd-chwarae'n frwdfrydig, yn cymryd eu tro ac yn cynorthwyo'i gilydd yn effeithiol tra'n chwarae gemau a chymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl. Enghraifft dda o hyn yw pan fydd y disgyblion iau yn gweithio gyda'i gilydd i greu cynefin i drychfilod bach gan ddefnyddio brics.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â disgyblion eraill wrth weithio mewn grwpiau bach neu barau ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn uchelgeisiol ac yn dangos diddordeb cryf yn eu gwaith. Maent yn siarad yn hyderus ac yn aeddfed am yr amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu y mae'r ysgol yn eu darparu ar eu cyfer. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn wedi'u cymell yn dda wrth greu animeiddiad stori yn dilyn ymweliad gan awdur o Gymru. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau amser priodol ac yn dangos lefelau da o wydnwch wrth weithio yn y dosbarth. Maent yn awyddus i blesio'u hathrawon wrth gwblhau eu tasgau ac mae gallu llawer o ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar ac ysgrifenedig gan staff. Er enghraifft, maent yn ailddrafftio'u hysgrifennu ac yn myfyrio ar eu dysgu yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn aeddfed i gymorth wedi'i ddarparu gan eu cyfoedion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 6 yn rhoi adborth i grwpiau blwyddyn eraill ar sut i wella ansawdd eu gwaith. Mae cyngor o'r fath yn cynnwys amrywio cyflymdra a thôn eu cyflwyniadau ar y cylch dŵr a modelau rôl ysbrydoledig.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os byddant yn poeni neu'n ddigalon, ac yn teimlo bod staff yn gofalu amdanynt yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu esbonio rheolau eu hysgol yn glir i fod 'Yn Barod, yn Gyfrifol ac yn Barchus' ac yn teimlo bod y rhain yn hyrwyddo ymddygiad da ac yn meithrin cyfeillgarwch ar draws yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o sut i aros yn ddiogel ar-lein ac yn atgoffa'i gilydd yn synhwyrol na ddylent rannu cyfrineiriau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn teimlo bod yr ysgol yn rhoi digonedd o gyfleoedd iddynt ar gyfer ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i ymgymryd â gweithgareddau corfforol dyddiol, er enghraifft pan fyddant yn chwarae golff troed, pêl-rwyd ac yn defnyddio'r llwybr cadw'n heini ar y maes chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn rolau arwain, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon chwaraeon yn hyrwyddo Wythnos Iechyd Meddwl trwy drefnu amserlen ffitrwydd ar gyfer pob dosbarth. Yn ychwanegol, mae'r pwyllgor eco yn arwain ac annog arferion ailgylchu trwy drefnu helfa batris a threfnu sioe ffasiwn o ddillad wedi'u hailgylchu. Mae'r disgyblion yn ymgymryd â'u rolau yn gyfrifol ac yn awyddus i ddatblygu eu heffaith fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus. Er enghraifft, mae'r pwyllgor eco yn cefnogi prosiect elusennol yn y gymuned leol i ailddosbarthu bwyd i deuluoedd mewn angen. Mae disgyblion hŷn yn archwilio problemau cynhesu byd-eang yn dda a'r effaith negyddol a gaiff datgoedwigo a llygredd ar yr amgylchedd. Mae'r ysgol gyfan hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau rheolaidd i godi sbwriel ac mae disgyblion yn rhedeg siop i ailgylchu gwisg ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau menter yn bwrpasol. Er enghraifft, fe wnaeth disgyblion hŷn drawsnewid sied i greu 'Y Caban Iach', er mwyn gwerthu byrbrydau iach. Mae'r disgyblion yn cyfrifo'r prisiau ar gyfer eu heitemau i'w gwerthu yn gywir, yn ogystal â chynllunio faint o baent oedd ei angen arnynt i addurno'r waliau allanol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o fedrau busnes sylfaenol, er enghraifft sut i reoli elw a cholled, a sut i gymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac ysgogol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion gysylltu eu dysgu yn yr ysgol â'r byd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymweld â stiwdios BBC Cymru Wales i'w hysbrydoli i ddatblygu eu gwasanaeth radio ysgol eu hunain, sef 'Viaduct Voice'. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technolegau o'r fath yn gryfder trwy'r ysgol. Mae hyn yn galluogi disgyblion, yn enwedig ym Mlwyddyn 6, i ddatblygu ystod o fedrau digidol datblygedig, fel cymysgu cyfryngau, golygu a darlledu.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n ofalus i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gwneud defnydd priodol o'u hawgrymiadau wrth gynllunio themâu'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrannu at gwestiynau mawr, ac yn eu harchwilio; er enghraifft, 'Beth sydd ei angen i fod yn elitaidd mewn chwaraeon?'. Wedyn, maent yn ennill profiadau dysgu gwerthfawr trwy gyfweld â'r rhai sydd wedi rhagori mewn chwaraeon. O ganlyniad, mae disgyblion yn deall pwysigrwydd diet, gwaith caled a hyfforddiant os ydynt am gyflawni'r safonau uchaf.

Caiff dysgu disgyblion ei gyfoethogi gan amrywiaeth o glybiau amser cinio ac ar ôl yr ysgol, fel côr, pêl-rwyd a dawnsio stryd. Mae arbenigwyr gwadd yn ymestyn meddwl disgyblion, er enghraifft gosod problemau fel pryd i 'gastellu' mewn gwyddbwyll. Mae staff yn gwneud defnydd priodol o dir yr ysgol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am ofalu am yr amgylchedd a byw yn gynaliadwy. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn creu offer bwydo adar, ac yn tyfu llysiau a ffrwythau yn yr ardaloedd plannu. Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn frwdfrydig i'r her i drawsnewid sied yn yr awyr agored yn gaffi bwyd iach, ac yn dysgu medrau entrepreneuraidd fel cyllidebu a rhagweld.

Ar draws yr ysgol, ceir amgylchedd dysgu pwyllog, pwrpasol a threfnus. Mae'r ysgol yn lân a threfnus. Mae'r rhan fwyaf o staff yn gwneud defnydd effeithiol o ofodau dan do ac yn yr awyr agored i ennyn diddordeb disgyblion ac ymwelwyr yn bwrpasol. Er enghraifft, mae arddangosfeydd ar y wal yn nodweddiadol yn cynnwys codau QR yn arddangos enghreifftiau o'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn dda ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir a'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i gyflawni'r rhain. Yn yr arfer sy'n creu'r effaith fwyaf, maent yn ennyn diddordeb disgyblion trwy strategaethau ac adnoddau dychmygus fel gemau geiriau i ddysgu geirfa newydd. Fodd bynnag, mae staff yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i ddisgyblion yn ystod tasgau. Ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion drafod gwaith ei gilydd a sut gall hyn wella, er enghraifft pan fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn awgrymu sut i adeiladu unedau silffoedd cryf. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, ceir diffyg amrywiaeth yng

nghyflymdra, medrau holi ac ymagweddau athrawon at sicrhau bod dysgu disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu a meddwl yn annibynnol.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd disgyblion, ac mae staff yn defnyddio data'n effeithiol i gynllunio ymyriadau priodol. Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig amserol i helpu disgyblion i ddeall beth gallant ei wneud i wella'u dysgu a sut. Ar ddechrau'r diwrnod, disgwylir i ddisgyblion hŷn olrhain ac adolygu eu cynnydd eu hunain trwy eu portffolios neu'u 'Teithiau Dysgu' eu hunain. Mae'r rhain yn egluro uchelgeisiau disgyblion fel dysgwyr, ac mae llawer ohonynt yn myfyrio ar eu dysgu mewn modd ystyriol. Yn achlysurol, fodd bynnag, mae targedau disgyblion yn rhy eang, ac o ganlyniad, maent yn ansicr ynglŷn â sut a phryd y gallant gyflawni'r rhain.

Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i rieni trwy adroddiadau blynyddol, gweithdai cydweithredol a sianelau fel cyfryngau cymdeithasol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynnes a chynhwysol iawn. Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn darparu lefelau uchel o ofal, cymorth ac arweiniad. Er enghraifft, mae gan yr ysgol dîm lles dynodedig, sydd wedi'i leoli mewn 'Adain Lles' ('Well-being Wing'), lle maent yn darparu rhaglen gyfoethog o gymorth ac arweiniad. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddigon diogel, saff a hyderus i siarad am eu gofidiau. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt, ac yn ymateb yn dda iddo.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned. Er enghraifft, mae'n darparu rhaglen o weithdai rheolaidd ar amrywiaeth o bynciau fel gwerth hwiangerddi, darllen stori a gwaith crefft. Mae nifer dda iawn o rieni'n mynychu'r rhain, sy'n gwerthfawrogi cyfleoedd i weld sut mae eu plant yn dysgu yn yr ysgol a beth gallant ei wneud i'w helpu gartref. Mae darpariaeth o'r fath yn creu perthnasoedd agos yn y gymuned ac yn cyfrannu'n dda at ymdeimlad disgyblion o berthyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion aros yn iach trwy ymarfer corff rheolaidd, a gweithgareddau sy'n amlygu'r angen i fwyta ac yfed yn synhwyrol. Mae staff hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu disgyblion i ofalu amdanyn nhw eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwybod y dylent wisgo helmed wrth seiclo neu weithio yn yr ardal adeiladu awyr agored. Yn ychwanegol, mae dosbarthiadau hŷn yn siarad yn synhwyrol am ymateb i beryglon amrywiol fel bwlio, camddefnyddio sylweddau a thwyll hunaniaeth ar-lein.

Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn effeithiol iawn ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn y dosbarthiadau iau yn defnyddio propiau fel pypedau ac arteffactau eraill i drafod teimladau. Mae disgyblion hŷn yn paratoi eu podlediadau eu hunain fel rhan o ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY yn effeithiol. Mae cydlynydd ADY yr ysgol yn cysylltu ag ystod o asiantaethau allanol arbenigol, lle bo'n briodol, i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu nodi, eu monitro a'u

cefnogi'n dda. Mae cwricwlwm teilwredig yn cael effaith gadarnhaol o ran magu hyder cyffredinol disgyblion, eu hunan-barch a'u hagweddau at ddysgu. Trwy'r ysgol, mae athrawon yn darparu adnoddau ac yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn effeithiol i sicrhau bod disgyblion yn cael cymorth da mewn meysydd fel darllen, mathemateg a datblygiad personol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion targedig yn gwneud cynnydd da o ran eu galluoedd.

Mae'r ysgol yn darparu gofal a chymorth effeithiol ar gyfer disgyblion yn ystod cerrig milltir pwysig, gan gynnwys eu cyfnod pontio o'r cartref i'r ysgol, o leoliadau cyn-ysgol i'r dosbarth meithrin ac wrth symud ymlaen i ysgol uwchradd. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mwynhau cymryd rhan mewn prosiect Ieithoedd Rhyngwladol pan fyddant yn dysgu am fapiau cerddorol, gwaith crefft Tsieineaidd a gwneud crêpes Ffrengig.

Un o gryfderau'r ysgol yw ei darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae staff yn gwneud y gorau o ddigwyddiadau cyfoes i ehangu gwybodaeth disgyblion am wahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, maent yn cynllunio cystadleuaeth cân 'Eurovision' pan mae pob dosbarth yn dysgu am fwyd, iaith, cerddoriaeth ac arferion gwahanol wledydd Ewropeaidd. Mae'r ysgol hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn dysgu am waith pobl leol, ac yn ei werthfawrogi. Trwy ei phrosiect arch arwyr cymunedol, er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwneud cardiau a bisgedi ar gyfer casglwyr sbwriel. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o werthoedd. Er enghraifft, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar storïau personol am rôl gofalwyr ifanc a sut i ddangos eu bod yn gofalu am bobl eraill.

Mae staff yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn dda ac yn creu amgylchedd lle mae disgyblion yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â thrafod hawliau fel rhyddid crefyddol a mynd i'r afael â rhywedd a stereoteipiau eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael hwyl yn yr her canu emyn gan ddefnyddio iaith arwyddion.

Mae staff yn annog disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn effeithiol trwy gymryd rhan mewn pwyllgorau amrywiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd da trwy gyfrannu tuag at welliannau ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Er enghraifft, mae aelodau o'r pwyllgor eco yn casglu hen fatris ac yn mynd â nhw i archfarchnad gyfagos i'w hailgylchu.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am y fro. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dysgu am fêl wedi'i gynhyrchu'n lleol ac yn pobi cacennau mêl, tra bod dosbarthiadau hŷn yn rhannu storïau newyddion lleol ar radio'r ysgol. Ceir pwyslais cryf hefyd trwy'r ysgol ar hyrwyddo dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth genedlaethol. Mae prosiect 'Cymru Ryfeddol' ('Wonderful Wales'), er enghraifft, yn helpu disgyblion i werthfawrogi'r hyn sy'n gwneud pobl a thir Cymru mor arbennig. Mae ymweliadau dosbarth â safleoedd amrywiol, fel Amgueddfa Werin Cymru, yn darparu cyfleoedd ysgogol i ddysgu am draddodiadau Cymru. Mae staff hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o sut mae pobl ddu wedi cyfrannu at ddatblygiadau mewn meddygaeth, peirianneg a meysydd bywyd eraill.

Mae prosesau'r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb yn effeithlon ac yn dechrau gwella presenoldeb a phrydlondeb ychydig iawn o ddisgyblion. Mae staff yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd i gynorthwyo disgyblion. Mae hyn yn cynnwys deall eu rolau i gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol cryf yr ysgol. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth gweithredol yn gweithio'n ddiwyd gyda'r dirprwy bennaeth i weithredu gwelliannau yn arferion strategol yr ysgol a'i harferion o ddydd i ddydd. Ochr yn ochr ag uwch dîm arweinyddiaeth newydd yr ysgol, maent yn nodi meysydd pwysig i'w gwella. Mae hyn yn cefnogi datblygiadau buddiol yn narpariaeth yr ysgol, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr, gyda chymorth y llywodraethwyr, yn canolbwyntio ar roi'r ysgol yng nghanol y gymuned. Maent yn gosod lles disgyblion a'u teuluoedd wrth wraidd eu gweledigaeth ac yn hyrwyddo arwyddair yr ysgol, sef 'Dysgu gyda'n gilydd i fod y gorau y gallwn ni fod' ('Learning together to be our best') yn llwyddiannus. Mae'r staff yn cefnogi'r athroniaeth hon ac yn ei chymhwyso i'w rolau yn effeithiol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod ethos gofalgar a chefnogol yn bodoli ar draws yr ysgol, y mae'r ysgol yn barod i'w groesawu. Mae hyn yn hyrwyddo cynwysoldeb yn bwrpasol ac yn cael effaith gadarnhaol ar barodrwydd disgyblion i ddysgu.

Mae'r pennaeth gweithredol, gyda chymeradwyaeth y llywodraethwyr, yn dyrannu rolau â chyfrifoldeb yn effeithiol. O ganlyniad, mae aelodau newydd y tîm arweinyddiaeth yn dechrau dwyn staff i gyfrif yn synhwyrol am ansawdd ac effaith eu gwaith. Maent yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau monitro yn drylwyr i werthuso ansawdd darpariaeth yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â diffygion yn effeithiolrwydd a chysondeb yr addysgu a datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau uchel ymhlith staff.

Mae prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn effeithiol. Maent yn rhoi darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu i'r pennaeth gweithredol a'r uwch arweinwyr. Mae'r cyswllt rhwng gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gywir. Mae arweinwyr yn defnyddio'r canfyddiadau'n effeithiol ac yn gosod targedau pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen.

Mae prosesau arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn drylwyr ac wedi'u seilio ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Er enghraifft, mae systemau i wella effaith darpariaeth yr ysgol yn cynnwys craffu'n fanwl ar lyfrau disgyblion a dadansoddi data mewnol ac allanol ar gynnydd disgyblion. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn casglu barn rhanddeiliaid eraill am yr ysgol yn rheolaidd i lywio'u harferion. Er enghraifft, maent yn ystyried barn rhieni a gofalwyr ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau'n brydlon, fel cynnal gweithdai i rieni greu canllaw ar gyfer cymuned yr ysgol ar wrthfwlio.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol ac mae eu mewnbwn rheolaidd yn hyrwyddo trafodaethau synhwyrol a gwelliannau systematig o dan arweiniad y pennaeth gweithredol. Maent yn gefnogol iawn i'r tîm arweinyddiaeth newydd ac yn barod i weithio gyda nhw. Maent yn dechrau cwestiynu effaith gwaith yr ysgol fel

ffrindiau beirniadol. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth strategol y corff llywodraethol yn gwbl effeithiol. Maent yn dibynnu'n ormodol ar y pennaeth gweithredol a'r uwch dîm arweinyddiaeth i yrru, monitro a gwerthuso mentrau yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio tystiolaeth ddibynadwy i hysbysu llywodraethwyr am ddysgu disgyblion mewn cyfarfodydd tymhorol. Maent yn eu cynghori'n realistig ac yn onest ar sut i wella darpariaeth, er enghraifft yr angen i wella medrau ysgrifennu disgyblion a darpariaeth awyr agored yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn cynnal teithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion gydag athrawon i ddatblygu dealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau'r ysgol. Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella, fel datblygu'r 'Adain Lles'.

Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned yr ysgol ehangach a gyda theuluoedd bregus. Maent yn adeiladu ar y perthnasoedd cryf sy'n bodoli â rhieni ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd gydag asiantaethau cymorth a lleoliadau cyn-ysgol. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta ac yn yfed yn iach, ac yn cynghori rhieni am bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu bocsys bwyd. Yn ychwanegol, maent yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol gyda phob un o'r staff yn drylwyr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau a thir yr ysgol, sy'n cynnwys grymuso'r gofalwr i arwain ar greu amgylchedd dysgu bywiog ac ysgogol. Er enghraifft, maent yn ymestyn y cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored yn effeithiol â gwelyau tyfu blodau ac offer antur. Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau ysgogol yn yr ystafelloedd dosbarth ac yn defnyddio grantiau datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol gan staff. O ganlyniad, mae'r cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth buddiol i wella dysgu'r disgyblion.

Mae'r pennaeth gweithredol yn sicrhau bod staff yn manteisio ar gyfleoedd dysgu effeithiol i gefnogi eu datblygiad proffesiynol sy'n gweddu i'w hanghenion unigol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol â'i hysgol gynradd bartner. Mae hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon gymharu a rhannu eu harfer â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cefnogi gallu'r ysgol ar gyfer gwelliant parhaus yn fuddiol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  07/08/2023